# Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

## Cofnodion cryno'r Pwyllgor (CC(3)-14-10) : 2 Tachwedd 2010

Gellir gweld y cyfarfod hwn ar Senedd TV ar:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_02_11_2010&t=0
**Amser: 9.19 – 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**
Helen Mary Jones (Cadeirydd), Llanelli
Eleanor Burnham, Gogledd Cymru
Jonathan Morgan, Gogledd Caerdydd
Lynne Neagle, Tor-faen
Joyce Watson, Canolbarth a Gorllewin Cymru

**Tystion**
John Sayce, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Barnardos Cymru
Dr Tracey Bywater, Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru
Bridget Roberts, Seicolegydd Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Emily Warren, Swyddog Polisi Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Staff y Pwyllgor**
Abigail Phillips, Clerc
Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc
Sarah Hatherley, Ymchwilydd, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Helen Roberts, Cynghorydd Cyfreithiol

**1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9.19 – 9.21)**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Sandy Mewies. Roedd Lynne Neagle yn dirprwyo ar ran Sandy Mewies.

## 2: Ymchwiliad dilynol i Rianta yng Nghymru a rhoi’r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith – Casglu tystiolaeth (9.21 – 10.26)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Barnardos a Chanolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru fel rhan o’i ymchwiliad dilynol i Rianta yng Nghymru a rhoi’r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith.

**Camau i’w cymryd**

- Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru i roi barn ar ddull teulu integredig newydd y llywodraeth, y Fenter Teuluoedd yn Gyntaf.

## 3: Ymchwiliad dilynol i Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw’r Ateb? (10.26 – 10.55)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel rhan o’i ymchwiliad dilynol i Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw’r Ateb?

**Camau i’w cymryd**

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am faterion addysgol a godwyd yn ystod y cyfarfod, sef cyflawniad ac effeithiolrwydd y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion, monitro a chraffu ar berfformiad Awdurdodau Addysg Lleol ac ysgolion ar gyfer disgyblion difreintiedig, gwaith awdurdodau lleol gyda phobl ifanc cyn-16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gan gynnwys y gwaith gyda Gyrfa Cymru a rhannu arfer da rhwng colegau ac ysgolion o ran mynd i’r afael ag anghenion penodol disgyblion o gefndiroedd tlotach.
- Y Clerc i anfon y cwestiynau na ofynnwyd yn ystod y cyfarfod.

## 4: Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer Eitem 5

4.1 Gwnaeth y Cadeirydd gynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(ix), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod, er mwyn trafod materion yn ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5: Ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu (10.55 – 11.00)

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft a'r fersiwn Saesneg plaen drafft.

5.2 Y Clerc i gynnwys sylwadau Aelodau yn yr adroddiad.

**6: Papurau i'w nodi**

CYP(3)-14-10 - Papur 4 – Gwybodaeth ychwanegol gan y Dirprwy Weinidog yn dilyn y cyfarfod ar 15 Mehefin
CYP(3)-14-10 – Papur 5 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog ynghylch yr adroddiad ar Gyllidebu ar gyfer Plant
CYP(3)-14-10 – Papur 6 – Gwybodaeth ychwanegol gan y Comisiynydd Plant yn dilyn y cyfarfod ar 28 Medi
CYP(3)-13-10 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2010
CYP(3)-14-10 – Papur 7 – Gwybodaeth ychwanegol gan Ysgol Ardudwy Harlech ynghylch yr ymchwiliad i fannau diogel i chwarae a chymdeithasu

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Tachwedd 2010**